



Briff allforion bwyd a diod blynyddol 2018

Key points



Gwerth allforion bwyd a diod yng Nghymru oedd

£539m yn 2018.

Roedd hyn yn gynydd o **2%** neu **£10m** o gymharu â 2017).

Ers 2014, mae gwerth allforion bwyd a diod yng Nghymru wedi cynyddu **32%** [Tabl 5].



Aeth **£395m** o allforion bwyd a diod Cymru i'r Undeb Ewropeaidd yn 2018, sef **73%** o'r cyfanswm [Tabl 3] [Tabl 4].

Cafwyd gostyngiad o **£14m** mewn allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE yn 2018...



... ond cynyddodd allforion i wledydd y tu allan i'r UE **£25m**, i gyfanswm o **£145m** [Siart 2].




Y prif gategori cynnyrch ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru oedd cig a chynnyrch cig, a oedd yn gyfrifol **am chwarter a mwy o allforion bwyd a diod** [Tabl 4].



Siart 1:

Mynegai gwerth allforion bwyd a diod (2013 = 100%)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Cyrchfan allforion

Siart 2:

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE a gweddill y byd




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gostyngodd gwerth allforion bwyd a diod o Gymru i'r Undeb Ewropeaidd yn 2018 ond, serch hynny, roedd cyfanswm gwerth yr allforion, sef £395 miliwn, yn uwch nag ydoedd yn 2016. Ar yr un pryd, cynyddodd allforion i weddill y byd erbyn £25 miliwn. Mae allforion y tu allan i'r UE wedi bod yn cynyddu'n raddol a bellach maent i gyfrif am 27% o'r allforion bwyd a diod o Gymru.

Siart 3:

Prif gyrchfannau ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru, 2018




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gweriniaeth Iwerddon yw'r prif gyrchfan ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru. Roedd i gyfrif am 20% o farchnad allforio bwyd a diod Cymru. Iwerddon oedd y mewnforiwr mwyaf o gynhyrchion llaeth ac wyau adar, ydau a pharatoadau o ŷd, a phorthiant i anifeiliaid [Tabl 8]. Mae gwerth allforion i Iwerddon yr un faint â gwerth allforion i'r Dwyrain Canol, Gogledd Affrica, Gogledd America, Asia ac Ynysoedd y De gyda'i gilydd.

Iwerddon, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Sbaen oedd i gyfrif am dros hanner y farchnad allforio ar gyfer bwyd a diod o Gymru.

Siart 4:

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE a gweddill y byd, fesul cynnyrch, 2018




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Roedd gwahaniaethau rhwng y mathau o gynhyrchion a oedd yn cael eu hallforio i wledydd y tu allan i'r UE a'r rhai oedd yn cael eu hallforio i'r UE. Cafodd llai na 10% o lysiau a ffrwythau eu hallforio y tu allan i'r UE, a llai nag 20% o gynhyrchion cig. Ar y llaw arall, cafodd dros 40% o ydau a chynhyrchion bwydadwy amrywiol eu hallforio i wledydd y tu allan i'r UE [Siart 3].

Cynhyrchion a allforiwyd

Siart 5:

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cynnyrch, 2018



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Y prif gategori cynnyrch ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru oedd cig a chynnyrch cig, a oedd i gyfrif am chwarter a mwy o allforion bwyd a diod. Mae allforion cig a chynnyrch cig wedi cynyddu 63% ers 2014 [Tabl 5].

Mae gwerth allforion ffrwythau a llysiau wedi dyblu o gymharu â'r flwyddyn cynt [Tabl 5]. Rhan o'r rheswm am y cynnydd oedd twf mawr yng nghyfanswm y ffrwythau a llysiau a allforiwyd i'r Iseldiroedd a Gweriniaeth Iwerddon.

Gwelwyd cynnydd mawr mewn allforion ydau a pharatoadau o yd yn 2018 hefyd, gan gynyddu 22% [Tabl 5]. Yn yr achos hwn, gwelwyd cynnydd mawr yng nghyfanswm y nwyddau a allforiwyd i Weriniaeth Iwerddon a'r Iseldiroedd, ond roedd y cynnydd mewn gwerth wedi'i ledaenu ar draws sawl gwlad [Tabl 8].

Yn yr hirdymor, cafwyd twf cadarn ym mhob categori ers 2014, ar wahân i gynhyrchion llaeth ac wyau, diodydd, a pharatoadau siwgr a mêl [Tabl 5].

Gostyngodd allforion diodydd am y drydedd flwyddyn yn olynol [Tabl 5]. Yn arbennig, gwelwyd gostyngiad yng ngwerth allforion i'r Eidal, Ffrainc, Gwlad Belg ac UDA.

Tabl 1:

Gwerth allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (£ miliwn), 2014–2018

Blwyddyn	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion
2014	408	14,135	2.9%	18,979	283,060	6.7%	2.2%	5.0%
2015	404	13,253	3.0%	18,363	275,414	6.7%	2.2%	4.8%
2016	436	14,630	3.0%	20,342	290,999	7.0%	2.1%	5.0%
2017	529	16,479	3.2%	22,280	328,380	6.8%	2.4%	5.0%
2018	539	17,174	3.1%	22,856	336,910	6.8%	2.4%	5.1%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 2:

Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (tunnell), 2014–2018

Blwyddyn	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion
2014	219,500	9,041,800	2.4%	13,123,100	153,087,200	8.6%	1.7%	5.9%
2015	223,600	8,525,600	2.6%	14,468,100	153,685,100	9.4%	1.5%	5.5%
2016	203,000	7,846,600	2.6%	15,668,200	154,477,400	10.1%	1.3%	5.1%
2017	201,400	7,515,100	2.7%	13,116,500	160,939,400	8.1%	1.5%	4.7%
2018	228,200	8,304,100	2.7%	13,375,600	155,607,400	8.6%	1.7%	5.3%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 3:

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cyrchfan (£ miliwn), 2014–2018

Blwyddyn	2014	2015	2016	2017	2018	2018 o'i chymharu â:	
						2014 % newid	2017 % newid
Yr Undeb Ewropeaidd	352	333	360	409	395	↑ 12%	↓ 3%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	5	10	14	35	46	↑ 821%	↑ 31%
Asia ac Ynysoedd y De	18	19	20	25	33	↑ 81%	↑ 31%
Gogledd America	18	28	20	26	30	↑ 63%	↑ 14%
Gorllewin Ewrop (nid UE)	8	8	8	19	19	↑ 146%	↓ 2%
Affrica i'r De o'r Sahara	3	3	7	6	9	↑ 213%	↑ 50%
Dwyrain Ewrop	4	2	6	7	6	↑ 54%	↓ 14%
America Ladin a'r Caribi	1	1	1	1	2	↑ 200%	↑ 48%
Cyfanswm	408	404	436	529	539	↑ 32%	↑ 2%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 4:












Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cyrchfan fel canran, 2014–2018

Blwyddyn	2014	2015	2016	2017	2018
Yr Undeb Ewropeaidd	86%	82%	83%	77%	73%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	1%	2%	3%	7%	9%
Asia ac Ynysoedd y De	4%	5%	5%	5%	6%
Gogledd America	4%	7%	5%	5%	6%
Gorllewin Ewrop (nid UE)	2%	2%	2%	4%	3%
Affrica i'r De o'r Sahara	1%	1%	1%	1%	2%
Dwyrain Ewrop (nid UE)	1%	–	1%	1%	1%
America Ladin a'r Caribi	–	–	–	–	–
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 5:












Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cynnyrch (£ miliwn), 2014–2018

Blwyddyn	2014	2015	2016	2017	2018	2018 o'i chymharu â:	
						2014 % newid	2017 % newid
Cig a Chynnyrch Cig 	87	94	122	147	142	↑63%	↓4%
Cynnyrch Llaeth ac Wyaau Adar 	112	91	89	120	110	↓1%	↓9%
Ydau a Pharatodau o Ŷd 	57	61	56	67	82	↑43%	↑22%
Cynnyrch a Pharatodau Bwydadwy Amrywiol 	37	46	61	73	78	↑108%	↑6%
Porthiant i Anifeiliaid 	28	22	21	28	32	↑14%	↑15%
Bwyd Môr 	29	25	27	32	31	↑7%	↓2%
Diodydd 	33	39	32	29	26	↓22%	↓12%
Llysiau a Ffrwythau 	7	6	7	8	16	↑139%	↑103%
Coffi, Te, Coco, Sbeis 	8	10	9	13	12	↑45%	↑8%
Siwgr, Paratodau Siwgr a Mêl 	9	10	9	8	9	↓4%	↑1%
Olew a Braster 	1	1	2	2	3	↑196%	↑14%
Cyfanswm	408	404	436	529	539	↑32%	↑2%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn

Tabl 6:












Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cynnyrch fel canran, 2014–2018

Blwyddyn		2014	2015	2016	2017	2018
Cig a Chynnyrch Cig		21%	23%	28%	28%	26%
Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar		27%	22%	20%	23%	20%
Ydau a Pharatodau o Ýd		14%	15%	13%	13%	15%
Cynnyrch a Pharatodau Bwydadwy Amrywiol		9%	11%	14%	14%	14%
Porthiant i Anifeiliaid		7%	5%	5%	5%	6%
Bwyd Môr		7%	6%	6%	6%	6%
Diodydd		8%	10%	7%	6%	5%
Llysiau a Ffrwythau		2%	1%	2%	1%	3%
Coffi, Te, Coco, Sbeis		2%	2%	2%	2%	2%
Siwgr, Paratodau Siwgr a Mêl		2%	2%	2%	2%	2%
Olew a Braster		–	–	–	–	–
Cyfanswm		100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 7:

Pwysau allforion bwyd a diod fesul cynnyrch (tunnell), 2014–2018

Blwyddyn	2014	2015	2016	2017	2018	2018 o'i chymharu â:	
						2014 % newid	2017 % newid
Cynnyrch a Pharatodau Bwydadwy Amrywiol 	22,100	24,400	20,500	25,200	43,600	↑ 97%	↑ 73%
Cig a Chynnyrch Cig 	40,900	37,000	39,700	40,600	43,500	↑ 6%	↑ 7%
Cynnyrch Llaeth ac Wyaau Adar 	51,400	48,300	41,400	37,100	35,700	↓ 31%	↓ 4%
Diodydd 	37,000	41,900	39,100	36,500	34,500	↓ 7%	↓ 6%
Porthiant i Anifeiliaid 	28,600	26,800	20,200	20,700	31,000	↑ 8%	↑ 50%
Ydau a Pharatodau o Ŷd 	11,500	15,400	17,000	16,300	14,500	↑ 26%	↓ 11%
Siwgr, Paratodau Siwgr a Mêl 	11,900	13,500	10,800	8,200	9,900	↓ 16%	↑ 21%
Llysiau a Ffrwythau 	4,400	4,700	3,900	3,900	6,700	↑ 54%	↑ 72%
Bwyd Môr 	8,900	8,700	7,300	9,600	5,500	↓ 38%	↓ 43%
Coffi, Te, Coco, Sbeis 	2,400	2,200	1,800	2,300	2,400	↓ 1%	↑ 5%
Olew a Braster 	400	700	1,200	1,000	900	↑ 117%	↓ 11%
Cyfanswm	219,500	223,600	203,000	201,400	228,200	↑ 4%	↑ 13%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Tabl 8:

5 Prif gynhyrchion bwyd a diod o Gymru fesul y 5 prif gyrchfan (gwerth mewn £ miliwn, cyfaint mewn tunelli), 2014–2018

Cig a Chynnyrch Cig	2014		2015		2016		2017		2018	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Ffrainc	28	7,500	26	7,400	31	8,500	32	7,600	33	8,400
Gweriniaeth Iwerddon	17	8,800	23	10,100	25	10,300	25	9,600	25	8,900
Yr Almaen	3	1,300	6	1,800	14	3,700	15	3,800	14	4,800
Yr Iseldiroedd	11	13,800	8	9,900	9	4,500	13	8,400	11	10,800
Yr Eidal	8	2,000	7	1,500	7	1,400	9	1,500	8	1,200

Cynnyrch Llaeth ac Wyaau Adar	2014		2015		2016		2017		2018	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Gweriniaeth Iwerddon	17	7,600	17	10,100	18	8,600	20	7,700	25	10,400
Ffrainc	16	7,200	16	7,400	14	7,400	15	4,700	17	5,300
Yr Almaen	12	5,000	9	4,200	6	3,200	8	2,700	11	3,000
Yr Iseldiroedd	15	12,800	10	10,700	9	6,300	13	6,500	10	5,400
Twrci	–	–	1	200	1	200	6	600	6	600

Ydau a Chynnyrch o Ŷd	2014		2015		2016		2017		2018	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Gweriniaeth Iwerddon	21	10,100	21	9,400	21	9,300	20	10,500	23	16,500
Ffrainc	10	3,200	12	4,800	10	3,000	10	2,700	10	2,700
Emiradau Arabaidd Unedig	–	100	–	300	1	300	3	800	7	1,800
Sawdi Arabia	–	–	–	100	–	100	3	900	5	1,800
Yr Iseldiroedd	2	1,100	3	1,700	3	1,700	3	1,700	5	8,400

Cynnyrch a Pharatodau Bwydadwy Amrywiol	2014		2015		2016		2017		2018	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
UDA (gan gynnwys Puerto Rico)	1	100	4	200	7	400	8	200	12	300
Gweriniaeth Iwerddon	5	2,200	5	2,000	8	3,000	10	3,500	8	2,800
Yr Almaen	5	900	5	900	8	1,600	9	1,500	8	1,400
Ffrainc	7	2,500	6	3,100	5	2,300	7	2,300	7	1,700
Canada	2	1,000	5	4,100	1	3,200	3	1,700	5	1,100

Porthiant i Anifeiliaid	2014		2015		2016		2017		2018	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Gweriniaeth Iwerddon	6	7,300	7	8,300	6	6,800	10	10,300	12	15,100
Yr Almaen	7	6,400	6	4,400	6	2,300	6	1,700	5	1,300
Sweden	2	2,700	2	2,800	2	1,800	2	1,300	2	1,400
Norwy	–	–	–	200	–	300	1	600	2	1,200
Yr Eidal	2	2,200	1	2,000	1	2,000	1	2,000	2	2,500

Tabl 9:

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliwn), 2014–2018

Blwyddyn	2014	2015	2016	2017	2018	2018 o'i chymharu â:	
						2014 % newid	2017 % newid
Cymru	408	404	436	529	539	↑32%	↑2%
Yr Alban	4,962	4,747	5,235	5,726	5,890	↑19%	↑3%
Gogledd Iwerddon	1,558	1,426	1,436	1,721	1,899	↑22%	↑10%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	219	242	241	245	243	↑11%	↓1%
Gogledd-orllewin Lloegr	1,546	1,508	1,736	1,923	1,841	↑19%	↓4%
Swydd Efrog a'r Humber	993	932	1,010	1,125	1,166	↑17%	↑4%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	809	855	927	951	993	↑23%	↑4%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	665	643	694	771	816	↑23%	↑6%
Dwyrain Lloegr	1,671	1,690	1,844	1,989	1,988	↑19%	↑0%
Llundain	2,598	2,333	2,625	2,882	2,984	↑15%	↑4%
De-ddwyrain Lloegr	1,221	1,282	1,488	1,610	1,532	↑25%	↓5%
De-orllewin Lloegr	644	635	729	809	814	↑26%	↑1%
Cyfanswm	18,979	18,363	20,342	22,280	22,856	↑20%	↑3%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Perthnasedd

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) CThEM (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian. Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynnyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael ei newid.

Defnyddiwyd un ar ddeg o gategoriâu SITC rev.4 (Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:

00

Anifeiliaid byw heblaw'r rheini yng nghategori 03



01

Cig a pharatoadau cig (Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynnyrch cig")



02

Cynnyrch llaeth ac wyau adar



03

Pysgod (gan gynnwys mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt



04

Ydau a pharatoadau o yd



05

Llysiau a ffrwythau



06

Siwgr, paratoadau siwgr a mêl



07

Coffi, te, coco, sbeis a chynnyrch ohonynt



08

Porthiant i anifeiliaid (heb gynnwys ydau heb eu malu)



09

Cynnyrch a pharatoadau bwyttadwy amrywiol



11

Diodydd



41

Olew a braster o anifeiliaid

42

Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu eu ffracsiynu (Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster")



DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategoriâu cynnyrch, gan i gategoriâu 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynnyrch cig*, ac i gategoriâu 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster*.

Cafodd "Storfeydd a Darpariadau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEM ar lefel genedlaethol (www.uktradeinfo.com).

Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEM. Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU. Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae' cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEM yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.

Os oes gan fusnes ganghennau mewn mwy nag un rhanbarth, mae masnach y busnes hwnnw'n cael ei dyrannu i bob rhanbarth yn seiliedig ar **ba gyfran o'i weithlu sydd yn y rhanbarth hwnnw**, waeth beth sy'n cael ei allforio.

Diwygiadau

O 1 Mai 2016, cafodd y ffordd y mae ystadegau am fasnachu nwyddau o'r tu allan i'r UE eu casglu ei newid. Yn sgil newid y ddeddf, nid y system "Masnach Gyffredinol" a ddefnyddir i gasglu ystadegau masnachu nwyddau o'r tu allan i'r UE mwyach, ond y system "Masnach Arbennig". Am fwy o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng Masnach Gyffredinol a Masnach Arbennig, darllenwch **Methodology Paper for Overseas Trade Statistics** CThEM. Dim ond o 2012 y mae data Masnach Arbennig ar gael. Data Masnach Arbennig yw'r holl ddata yn y bwletin hwn.

Mae CThEM wedi newid y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo Ystadegau Masnach Rhanbarthol. Bellach mae masnach busnes yn cael ei dyrannu i ranbarth ar sail pa gyfran o weithlu'r busnes sydd yn y rhanbarth hwnnw yn hytrach na lleoliad Prif Swyddfa'r busnes. Mae data sy'n defnyddio'r fethodoleg newydd ar gael o Chwarter 1 2013. Nid yw'n briodol cymharu data cyfredol gyda data sy'n dyddio o cyn 2013 ac nid yw wedi cael ei gynnwys yn y bwletin hwn. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd, diwygiadau a methodoleg y data ar gael ar **wefan CThEM**.